

# Sut i ddewis meddyg trin coed/tyfwr coed

Mae trin coed yn waith arbenigol iawn y mae angen dealltwriaeth, sgiliau a phrofiad cadarn er mwyn gallu ei wneud. Bydd gan dyfwyr coed cymwys (meddygon trin coed) dystysgrifau sy'n dangos eu bod wedi'u hyfforddi a'u hasesu a byddant yn defnyddio offer diogelwch i'ch amddiffyn chi, eich eiddo a'u hunain.

## Yswiriant

Rhaid sicrhau bod ganddynt yswiriant atebolrwydd cyhoeddus. Bydd meddygon trin coed dibynadwy'n hapus i ddarparu copïau o'u hyswiriant, eu cymwysterau ac aelodaeth broffesiynol a byddant yn gweithio i safonau a gydnabyddir yn genedlaethol.

## Safonau

Dylent weithio i Safonau Prydeinig (BS) 3998:2010. Mae hyn yn arbennig o bwysig os ydynt yn ymgymryd â gwaith ar goeden a warchodir. **Fel arfer, mae cydymffurfio â'r Safonau Prydeinig yn amod o waith a ganiateir ar goeden a gallai peidio â chydymffurfio arwain at erlyn y meddyg trin coed neu berchennog y goeden.** Os nad yw person yn dyfynnu BS3998:2010, nid yw'n defnyddio'r arfer gorau cyfredol.

## Cymhwysedd

Mae'n orfodol yr aseswyd cymhwysedd meddygon trin coed i ymgymryd â'u tasgau peryglus. Fel arfer, caiff hyn ei brofi drwy asesiadau'r Cyngor Profion Cymhwysedd Cenedlaethol (NPTC) sy'n darparu tystysgrifau o gymhwysedd meddyg trin coed wrth ddefnyddio llif gadwyn, defnyddio llif gadwyn yn uchel a dringo coed. Gall tyfwr coed cymwys ddangos ei dystysgrifau neu gerdyn adnabod NPTC i chi.

Er y bydd tystysgrifau'n dangos yr aseswyd meddyg trin coed, mae profiad yn allweddol i gwblhau'r gwaith yn ddiogel. Gwylwch rhag tyfwyr coed nad ydynt wedi'u sefydlu yn eich ardal.

Os byddwch yn cyflogi meddyg trin coed nad yw'n gymwys, yn achos damwain gallwch fod yn atebol yn ddirprwyol am beidio â chymryd camau rhesymol i sicrhau y byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau'n ddiogel.

## Gofynnwch am ddyfynbrisiau ysgrifenedig

Gofynnwch am ddyfynbris ysgrifenedig sy'n rhoi manylion llawn a chlir y gwaith i'w wneud bob tro. Rydym yn awgrymu y dylech gael mwy nag un er mwyn i chi allu cymharu'r gwasanaeth a ddarperir. Gall ymweliadau cychwynnol fod am ddim ond mae'n werth wirio cyn gwneud apwyntiad.

## Gofynnwch am eirdaon lleol a diweddar a gwiriwch nhw

Bydd y rhan fwyaf o feddygon trin coed da yn gallu darparu geirdaon addas.

## Rhestr Wirio

- A ydych chi'n hapus fod y meddyg trin coed yn gymwys a bod ganddo ddealltwriaeth, sgiliau a phrofiad cadarn yn ogystal ag yswiriant?
- A ydych chi wedi derbyn manylion ysgrifenedig llawn a chlir y gwaith a wneir? Byddwch yn ofalus wrth gymharu dyfynbrisiau i sicrhau eu bod ar gyfer gwaith tebyg.
- A yw TAW wedi'i chynnwys yn y dyfynbris?
- Pwy fydd yn gwirio gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleol a yw coeden wedi'i gwarchod gan GCC neu a yw mewn Ardal Gadwraeth? Gall meddyg trin coed godi ffi am ei amser wrth lenwi ffurflen gais. A dynnir hyn o bris y gwaith?
- Pa gamau y bydd yn eu cymryd i'ch amddiffyn chi a'ch eiddo?
- A oes angen mesurau rheoli traffig?
- Beth fydd yn digwydd i'r gweddillion?
- Os ydych chi'n cadw boncyffion, at ba hyd cânt eu torri?
- Os caiff coeden ei thorri, a gaiff malu bonion ei gynnwys, neu beth fydd uchder y bôn a fydd yn weddill?

## Adroddiadau ysgrifenedig, arolygon coed a chyngor

Os oes angen adroddiad ysgrifenedig ar eich coeden neu gyngor technegol neu gyfreithiol ar faterion sy'n ymwneud â choed, dylech ystyried defnyddio ymgynghorydd coedyddiaeth. Gall ymgynghorydd coedyddiaeth hefyd eich darparu ag arolwg coed os oes angen un arnoch ar gyfer cais cynllunio.

Dylai fod gan weithiwr proffesiynol sy'n cynnig y fath wasanaeth Yswiriant Indemniad Proffesiynol ac un o'r cymwysterau neu'r safonau canlynol a gydnabyddir yn y diwydiant:

- Tystysgrif mewn Coedyddiaeth, lefel 3/4 (fel arfer Tystysgrif Technegwyr yr AA neu L4DipArb)
- Diploma mewn Coedyddiaeth, Diploma mewn Coedyddiaeth Lefel 6 (L6DipArb neu ProfDipArb)
- FdSc, BSc neu MSc (Gradd Sylfaen, Gradd neu Radd Feistr) mewn Coedyddiaeth.
- Aelod Proffesiynol neu Gymrawd o'r Sefydliad Coedwigwyr Siartredig a enillwyd drwy lwybr coedyddiaeth/Tyfu Coed Siartredig (MICFor/FICFor)
- Cymrawd y Gymdeithas Tyfu Coed, Ymgynghorydd Cofrestredig gyda'r Gymdeithas Coedyddiaeth

Gwiriwch fod yr ymgynghorydd wedi ymgymryd â Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) rheolaidd ers ennill ei gymhwyster er mwyn bod yn siŵr fod ganddo ddealltwriaeth gyfredol.